

YSGOL DAVID HUGHES

PORTHAETHWY
YNYS MÔN LL59 5SS

Ffôn: (01248) 712287
Ffacs: (01248) 713919
e-bost:pennaeth.davidhughes@ynysmon.gov.uk



MENAI BRIDGE
ISLE OF ANGLESEY LL59 5SS

Tel: (01248) 712287
Fax: (01248) 713919
e-mail:pennaeth.davidhughes@anglesey.gov.uk

Pennaeth/Headteacher
H Emyr Williams BSc MEd

Gwefan/Website: www.ysgoldavidhughes.org

BWLETIN RHIENI
PARENTS' BULLETIN

IONAWR/JANUARY
2015

Blwyddyn newydd dda i bob un ohonoch a phob dymuniad da ar gyfer y flwyddyn 2015

A happy new year to everyone and best
wishes for 2015

RHAI DYDDIADAU PWYSIG / SOME IMPORTANT DATES

07/01/2015 – 16/01/2015	Arholiadau modiwlau allanol TGAU i disgyblion Blwyddyn 11 . External GCSE modular examinations for Year 11 pupils.
12/01/2015 – 15/01/2015	Arholiadau Mewnol Blwyddyn 12+13 Year 12+13 Internal Examinations
Dydd Mawrth/Tuesday 27/01/2015 3.40pm	Noson Rhieni Blwyddyn 11 Year 11 Parents' Evening
Dydd Mawrth/Tuesday 27/01/2015 4.00pm- 5.30pm	Cyfle i rieni ddod i drafod unrhyw fater gyda'r Pennaeth. An opportunity for parents to discuss any matter with the Headteacher
Dydd Mercher/ Wednesday 28/01/2015 6.00pm	Cyfarfod gyda rhieni Blwyddyn 9 i drafod cyrsiau TGAU ac Opsiyau 14+ Meeting with Year 9 parents to discuss GCSE courses and post 14 Options
Dydd Mawrth/Tuesday 03/02/2015 6.00pm	Cyfarfod gyda rhieni Blwyddyn 11 i rannu gwybodaeth am Opsiyau 16+ yn yr ysgol. A meeting with Year 11 parents to present information about school based Post 16 courses.
Dydd Mawrth/Tuesday 10/02/2015 3.40pm	Noson Rhieni Blwyddyn 12+13 Year 12+13 Parents' Evening
Dydd Mercher/Wednesday 11/02/2015 3.30pm – 5.00pm	Cyfle i rieni a disgyblion Blwyddyn 11 drafod Opsiyau 16+ gyda'r ysgol, coleg a darparwyr hyfforddiant. An opportunity for Year 11 pupils and parents to discuss 16+ Options with the school, college and training providers.
Dydd Gwener/Friday 13/02/2015	Diwrnod Hyfforddiant Mewn Swydd - NI FYDD YSGOL I'R DISGYBLION Training Day for teachers - NO SCHOOL FOR PUPILS
16/02/2015 – 20/02/2015	Gwyliau Hanner Tymor Half Term Holidays
Dydd Mawrth/Tuesday 24/02/2015 3.40pm	Noson Rhieni Blwyddyn 9 Year 9 Parents' Evening
Dydd Mawrth/Tuesday 24/02/2015 4.00pm- 5.30pm	Cyfle i rieni ddod i drafod unrhyw fater gyda'r Pennaeth. An opportunity for parents to discuss any matter with the Headteacher
Dydd Iau/Thursday 05/03/2015	Diwrnod y Llyfr World Book Day
16/03/2015 – 20/03/2015	Arholiadau Mewnol Blwyddyn 10 Year 10 Internal Examinations
Dydd Mawrth 17/03/2015	Arholiad Lefel Mynediad Mathemateg – Blwyddyn 11 Mathematics Entry Level Examination – Year 11
Dydd Llun/Monday 30/03/2015 – Dydd Gwener/Friday 10/04/2015	Gwyliau'r Pasg Bydd yr ysgol yn cau am wyliau'r Pasg dydd Gwener, 27 Mawrth ac yn ailagor dydd Llun 13 Ebrill. Easter Holidays The school will close for the Easter Holidays on Friday, 27 March and will re-open on Monday 13 April.

PROBLEM? CWESTIWN?

Mae cyfle i rieni ddod i drafod unrhyw fater gyda'r Pennaeth 4.00pm - 5.30pm nos Fawrth, 27 Ionawr 2015 ac 24 Chwefror 2015. Nid oes angen apwyntiad.

Nid noson agored na noson rhieni yw hon ond cyfle i drafod unrhyw bryder ynglŷn â'ch plentyn. Cynhelir un o'r sesiynau hyn bob hanner tymor.

PROBLEM? QUESTION?

There is an opportunity for parents to discuss any matter with the Headteacher 4.00pm-5.30pm on Tuesday, 27 January 2015 and 24 February 2015. An appointment is not necessary. This is not an open evening or a parents' evening but an opportunity to discuss any concern regarding your child. There will be one such session each half term.

FFAIR NADOLIG – CYFEILLION YSGOL DAVID HUGHES

Hoffai Cyfeillion Ysgol David Hughes ddiolch yn fawr am eich cefnogaeth i'r Ffair Nadolig a'ch ymdrechion i werthu tocynnau raffl. Fe wnaed elw o dros **£650.00** a bydd yr arian a gasglwyd yn mynd tuag at brynu adnoddau newydd i'r ysgol.

FRIENDS OF YSGOL DAVID HUGHES - CHRISTMAS FAIR

The Friends of Ysgol David Hughes would like to thank the many parents who supported the Christmas Fair as well as selling raffle tickets. A profit of over **£650.00** will be used to buy new resources for the school.

GWAITH ELUSENNOL

Diolch yn fawr iawn i chi am gefnogi sawl ymgyrch yn ystod y tymor diwethaf. Cefnogwyd sawl achos da, gan gynnwys Operation Christmas Child, Plant Mewn Angen ac Macmillan. Gwerthfawrogi gwaith caled a chefnogaeth disgyblion a rhieni.

APÊL OPERATION CHRISTMAS CHILD

Llenwodd disgyblion Ysgol David Hughes nifer fawr o focsys esgidiau gydag anrhegion Nadolig ar gyfer apêl Operation Christmas Child eleni. Roedd y fan yn llawn dop yn gadael iard yr ysgol er mwyn danfon y bocsys anrhegion i blant mewn llai ffodus ar draws y byd. Rydym yn hynod ddiolchgar i bawb a gyfrannodd at y gweithgaredd hwn.

CHARITY WORK

Thank you for supporting a number of campaigns during last term. Several good causes have benefited, including Operation Christmas Child, Children in Need and Macmillan. The hard work and support of pupils and parents is greatly appreciated.

OPERATION CHRISTMAS CHILD APPEAL

Ysgol David Hughes pupils filled a substantial number of boxes for the appeal. The van was full to the brim leaving the school yard in order to deliver the gift boxes to less fortunate children across the world. We would like to sincerely thank all who contributed to this appeal.

DIWRNOD Y LLYFR – 5 MAWRTH 2015

Cynhelir Diwrnod y Llyfr **ddydd Iau, 5 Mawrth** eleni. Fel sy'n arferol bellach bydd y disgyblion yn cael tocyn llyfr gwerth £1.00. Byddant yn cael eu rhannu ddechrau mis Mawrth a gellir eu defnyddio mewn unrhyw siop sy'n cymryd rhan yn y cynllun. Byddwn yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth i annog eich plentyn i ddarllen.

WORLD BOOK DAY – 5 MARCH 2015

World Book Day will be held this year on **Thursday, 5 March**. As usual, every pupil will receive a £1 book token. The tokens will be distributed at the beginning of March and they can be used at any participating bookshop. We would appreciate your support in encouraging your child to read.

GWISG YSGOL

Diolch am eich cydweithrediad er mwyn sicrhau cysondeb a pharch tuag at reolau ac ethos yr ysgol. Hoffwn eich atgoffa o'r canlynol:-

- Mae caniatâd i'r disgyblion wisgo un pâr o 'studs' yn y clustiau yn unig.
- Disgwylir i ddisgyblion gydymffurfio â steil a hyd gwallt rhesymol ac o liw naturiol.
- Disgwylir i ddisgyblion wisgo esgidiau du fel rhan o'r wisg ysgol.
- Nid ydym yn cymeradwyo'r defnydd o golor yn yr ysgol ond o'i wisgo rhaid i'r defnydd ohono fod yn gynnil.
- Dylai'r sgert fod at y penglin.

Diolch.

SCHOOL UNIFORM

Thank you for your co-operation in ensuring a consistently high standard of school uniform this term. This ensures appropriate respect for school rules and the general ethos of Ysgol David Hughes. We would also like to remind you of the following:-

- That pupils are allowed to wear one pair of studs in their ears only.
- Pupils are expected to conform to a respectable length and style of hair, which should be of a natural colour.
- Pupils are expected to wear black footwear as part of the school uniform.
- We do not endorse the use of makeup in school, however, if it is worn it should be used sparingly.
- The skirt should be knee-length.

Thank you.

GWISG ADDYSG GORFFOROL

Gofynnwn am eich cydweithrediad i sicrhau bod disgyblion yn dod â'r wisg briodol i bob un o'u gwersi Addysg Gorfforol. Rydym yn ymwybodol iawn o gyflwr y caeau, yn enwedig ym misoedd y gaeaf, ond mae hyn yn ategu'r angen am wisg addas er mwyn i'r disgyblion allu newid yn ôl i'w gwisg ysgol ar ôl cael cawod.

LLWYDDIANNAU

Cofiwch gysylltu â'r ysgol er mwyn sicrhau ein bod yn cael gwybod am lwyddiant neu gyfraniad arbennig disgyblion unigol neu grwpiau o ddisgyblion. Gofynnir i chi adael yr wybodaeth a/neu luniau yn y Swyddfa Fawr neu gydag aelod o staff er mwyn i ni gael rhannu'r newyddion ac ymfalchïo yn llwyddiant ein disgyblion. Diolch

PHYSICAL EDUCATION

KIT

We ask for your co-operation in ensuring that pupils bring the correct PE kit to every Physical Education lesson. We are aware of the state of the school fields, especially during the wet winter months, but this really underlines the need for the appropriate kit so that pupils can change back to their school uniform after having a shower.

SUCSESSES

Please remember to contact the school with information about individual pupils, or groups of pupils' achievements. The information and/or pictures can be left in the Main Office or given to a member of staff and will enable us to share news of successes and achievements with others. Thank you.

RHIENI BLWYDDYN 11/12/13

Mae 2015 yn flwyddyn bwysig iawn i ddisgyblion sy'n sefyll arholiadau allanol eleni. Cynhelir noson rhieni **Blwyddyn 11** ar **27 Ionawr 2015** a noson rhieni **Blwyddyn 12/13** ar **10 Chwefror 2015**.

Mae llawer o Aseidiadau dan Reolaeth ac Arholiadau Ymarferol sydd yn cyfrannu i raddau terfynol cymwysterau Lefel Mynediad/TGAU/UG/Safon Uwch yn cael eu cynnal yn ystod gwersi o fis Ionawr 2015 hyd at Fai 2015. Mae presenoldeb y disgyblion ym mhob un o'u gwersi yn allweddol os ydynt am wneud y defnydd gorau o'r cyfle i gyrraedd eu potensial.

Gofynnir am gydweithrediad rhieni i sicrhau lefel uchel o bresenoldeb yn yr ysgol drwy gydol y cyfnod pwysig hwn.

Mae gan y disgyblion hefyd gyfle i ennill llawer iawn o farciau drwy gyflwyno gwaith cwrs o'r safon uchaf bosibl, yn brydlon.

Fel yr ydych yn ymwybodol, ni ddylid dod â ffôn symudoli'r ysgol - mae hyn yn cynnwys yr ystafell arholi. **Mae gan y byrddau arholi reolau llym a byddant yn dileu marciau'r disgybl am bapur penodol neu hyd yn oed y gyfres gyfan o arholiadau os byddant yn cael eu dal gyda ffôn yn eu meddiant.**

YEAR 11/12/13 PARENTS

2015 will be a very important year for pupils taking external examinations this year. The **Year 11** parents' evening will be held on **27 January 2015** and **Year 12/13** parents' evening will be held on **10 February 2015**.

Many controlled Assessments and Practical Examinations which contribute to the final Entry Level/GCSE/AS/A examinations grades will be held during lessons from January 2015 until May 2015. Attendance in every lesson is extremely important if pupils are to fulfil their potential. Parental support is requested to ensure a high level of attendance throughout this very important period.

Pupils also have an opportunity to gain valuable marks by presenting coursework assignments on time and to the highest possible standard.

As you are aware, mobile phones should not be brought into school – this includes the examination room.

The examination boards have strict rules and pupils will not receive any marks for the paper or, in some cases, the whole series of examinations if they take a mobile phone into an examination room.

CLWB ASTUDIO BLWYDDYN 11

Cynhelir y clwb astudio pob nos Fercher 3.30pm - 5.00pm er mwyn sicrhau cefnogaeth ac amser i ddisgyblion Blwyddyn 11 baratoi ar gyfer ennill cymwysterau yn 2015. Mae croeso i unrhyw ddisgybl Blwyddyn 11 ddod i'r clwb.

YEAR 11 STUDY CLUB

The study club is held every Wednesday evening 3.30pm – 5.00pm in order to provide support and time, for Year 11 pupils to prepare to achieve qualifications in 2015. Any Year 11 pupil is welcome to attend.

AROLYGWYR ARHOLIADAU / EXAM SUPERVISORS

Os oes gan unrhyw un ddiddordeb mewn cael ei gyflogi i gynorthwyo i arolygu arholiadau, tybed a fuasech garediced â chysylltu â Miss Clair Pugh. Telir cyflog oddeutu £10.50 yr awr i'r arolygwyr. Diolch yn fawr.

If anyone is interested in being employed to assist in supervising examinations, would you kindly contact Miss Clair Pugh. Supervisors will be paid approximately £10.50 an hour. Thank you.

BLWYDDYN 9 – OPSIYNAU 14 +

Mae **Blwyddyn 9** yn wynebu penderfyniadau pwysig yn ymwneud â'u cyrsiau TGAU/Galwedigaethol am y ddwy flynedd nesaf. Mae'r cyfarfodydd canlynol wedi eu trefnu er mwyn rhannu gwybodaeth am y cyrsiau, egluro'r dewisiadau ac ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych:-

28 Ionawr 2015 6.00 pm	Cyfarfod gyda rhieni Blwyddyn 9 i drafod cyrsiau TGAU ac Opsiynau 14+.
24 Chwefror 2015 3.40 pm	Noson Rhieni Blwyddyn 9 i drafod gwaith a chynnydd eich plentyn.

BLWYDDYN 11 - OPSIYNAU 16+

Mae disgyblion Blwyddyn 11 hefyd yn wynebu penderfyniadau pwysig iawn wrth edrych ymlaen at y dyfodol, ar ôl yr arholiadau TGAU. Mae'r sefyllfa erbyn hyn yn fwy cymhleth oherwydd nifer o newidiadau i gwricwlwm 16+ yr ysgol. Rydym yn awyddus i rannu gwybodaeth gyda chi am y newidiadau sylfaenol mewn cymwysterau a phatrymau dewis pynciau ôl 16. Hoffem eich gwahodd i'r cyfarfodydd pwysig a drefnwyd ar eich cyfer:-

27 Ionawr 2015 am 3.40pm	Noson Rhieni Blwyddyn 11 i drafod gwaith a chynnydd eich plentyn.
3 Chwefror 2015 am 6.00pm	Cyfarfod i rieni Blwyddyn 11 i esbonio'r opsiynau ar gyfer y flwyddyn nesaf (yn enwedig os yw eich mab/merch yn ystyried dychwelyd i'r ysgol).
11 Chwefror 2015 am 3.30pm	Cyfle i rieni a disgyblion Blwyddyn 11 gyfarfod â chynrychiolwyr o'r ysgol, Gyrfa Cymru, coleg ac asiantaethau hyfforddiant i drafod y camau nesaf.

CHWARAEWYR CERDDORIAETH

Mae nifer o ddisgyblion yn dod â pheiriant cerddoriaeth personol/MP3/iPod i'r ysgol ac maent yn crwydro'r ysgol gyda'r clustffonau yn eu clustiau.

NI CHANIMATEIR I DDISGYBLION DDOD Â'R PEIRIANNAU HYN I'R YSGOL.

Os nad yw'r disgyblion yn cadw at y rheol yna bydd rhaid i staff gadw'r peiriant a chysylltu â'r rhieni. Diolch am eich cydweithrediad.

EIDDO

Fe'ch atgoffir mai cyfrifoldeb y disgybl yw eiddo personol. Ni ddylid gadael unrhyw beth gwerthfawr o gwmpas yr ysgol, er enghraifft ar ben y loceri. Gellir gadael unrhyw arian yn y Swyddfa Fawr hyd ddiwedd y dydd, pe dymunir.

YEAR 9 – POST 14 OPTIONS

Year 9 pupils face important decisions regarding their GCSE or Vocational courses for the next two years. The following meetings have been arranged in order to share information about the courses and to answer any questions you may have:-

28 January 2015 6.00 pm	A meeting with Year 9 parents to discuss GCSE courses and Post 14 Options.
24 February 2015 3.40 pm	Year 9 Parents' Evening to discuss your child's work and progress.

YEAR 11 - POST 16 OPTIONS

Year 11 pupils are also facing very important decisions regarding their future, following completion of the GCSE examinations. The situation is now further complicated by a number of changes to the school's post-16 curriculum. We would like to share information with you about these changes in qualifications and post-16 option patterns. We therefore invite you to attend the following meetings which have been arranged for your benefit: -

27 January 2015 at 3.40pm	Year 11 Parents Evening to discuss your child's work and progress.
3 February 2015 at 6.00pm	A meeting for Year 11 parents to explain the options available next September (especially if your son/daughter is considering returning to school).
11 February 2015 at 3.30pm	An opportunity for parents and Year 11 pupils to meet representatives from school, Careers Wales, college and training providers to discuss the next steps.

MUSIC PLAYERS

A number of pupils bring personal music/MP3 players/iPods into school and have the earphones attached during the school day.

PUPILS ARE NOT ALLOWED TO BRING THESE ITEMS INTO SCHOOL.

If this rule is not adhered to then staff will confiscate the item and contact the parents. Thank you for your co-operation.

PROPERTY

You are reminded that personal property is the individual pupil's responsibility. Valuables should not be left lying about in school, eg on top of the lockers. Money and valuables can be left in the Main Office until the end of the day if necessary.

TYMOR YR HYDREF / AUTUMN TERM 2014/2015

DIGWYDDIADAU / EVENTS

C ynhaliwyd cyfarfodydd i rieni ar gyfer Blynyddoedd 7 ac 8.	M eetings for Parents were held for Years 7 and 8.
C ynhaliwyd diwrnod sgiliau yn yr ysgol ar 18 Dachwedd, gyda phob disgybl o Flwyddyn 7-11 yn mynychu sesiynau 'datblygu sgiliau' yn hytrach na'r gwersi arferol.	T he school held a skills day on 18 November, with all pupils in Years 7-11 attending sessions designed to develop skills rather than their usual lessons.
C afwyd Gweithgaredd Pencampwyr Cyfranogiad i grŵp o ddisgyblion Blwyddyn 10.	A Participation Champions Development Activity was held for a group of Year 10 pupils.
C ynhaliwyd ffair 'Dinasyddiaeth' yn yr ysgol ar gyfer myfyrwyr Blwyddyn 12.	A 'Citizenship' fair was held at the school for Year 12 students.
T refnwyd rhai gweithgareddau gan fyfyrwyr Blwyddyn 12 i wella ymwybyddiaeth disgyblion o beryglon bwlio yn ystod Wythnos Gwrth-Fwlio . Gwerthwyd cacennau er budd yr elusen NSPCC .	S ome activities were arranged by Year 12 students to raise awareness of the dangers of bullying during Anti-Bullying Week . Cakes were sold in aid of the charity NSPCC .
D osbarthwyd asesiadau disgyblion Blynyddoedd 7-13 yn ystod y tymor, er mwyn darparu gwybodaeth i rieni a disgyblion, ac i alluogi'r ysgol i ymateb i unrhyw arwyddion o dangyflawni.	P upils in Years 7-13 received assessments during this term, to provide information for parents and pupils and to enable the school to respond to any signs of underachievement.
L lenwodd y disgyblion focsys esgidiau gydag anrhegion ar gyfer TEAMS4U unwaith eto eleni.	P upils filled shoe boxes with gifts for TEAMS4U once again this year.
C asglwyd £1124.91 ar gyfer Plant Mewn Angen drwy gynnal diwrnod di-wisg-ysgol a threfnu amrywiol weithgareddau a choginio a gwerthu bisgedi Pudsey.	£1124.91 was raised for Children in Need . A 'non-uniform day' and various activities were arranged in order to raise money. Pudsey cakes and biscuits were also baked and sold during morning break.
M ae Clwb Gwyddoniaeth wedi'i ffurfio i ddisgyblion Blwyddyn 7 fynychu yn wythnosol yn ystod amser cinio.	A Science Club has been formed for Year 7 pupils to attend on a weekly basis during lunchtime.
C ynhaliwyd arholiadau mewnol ar gyfer disgyblion Blwyddyn 11.	Y ear 11 pupils sat internal examinations .
C ynhaliwyd cyfarfodydd Cynghorau Blwyddyn ac Ysgol Gyfan y disgyblion yn ystod Tymor yr Hydref.	M eetings of the pupils' Year Councils and Whole School Councils were held during the Autumn Term.
B u rai disgyblion Blwyddyn 7+8 gynrychioli'r ysgol yng Nghystadleuaeth Gymnasteg Eryri yng Nghaernarfon yn ddiweddar.	S ome Year 7+8 pupils represented the school in the Eryri Gymnastics Competition in Caernarfon recently.
M ae Clwb Cocos wedi'i ffurfio ar gyfer Disgyblion Blwyddyn 7-9. Clwb hwyliog yw sy'n gwneud gweithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn cyfarfod bob amser cinio ddydd Gwener.	A 'Clwb Cocos' has been formed for Year 7-9 pupils. It's a club that does fun activities through the medium of Welsh, and it meets every Friday lunchtime.
B u Ffair yr ysgol yn llwyddiannus eto eleni, gan godi dros £650 .	T he school Fair was a success again this year, raising over £650 .
M ae Clwb Beicio YDH wedi'i ffurfio yn ddiweddar ac yn cyfarfod bob pnawn Llun ar ôl ysgol i ddisgyblion Blwyddyn 7-9.	YDH Cycling Club has been recently formed for Years 7-9 pupils and meets every Monday afternoon after school.
D aeth nifer o siaradwyr gwadd i'r ysgol ar gyfer myfyrwyr Blwyddyn 12+13: <ul style="list-style-type: none"> · Mark Gahan, Cydlynnydd Lle 'Cynefin' - Cyfoeth Naturiol Cymru · Criw Ffilmio Cyfoeth Naturiol Cymru · Swyddog o CSYM son am 'Mocktels' · Mr Graham Kelly, Prifysgol Glyndŵr 	A number of guest speakers visited the school for Year 12+13 students: <ul style="list-style-type: none"> · Mark Gahan, Cynefin Place Co-ordinator, Natural Resources Wales · Natural Resources Wales Filming Crew · Representative from IOACC talking about Mocktels · Mr Graham Kelly, Glyndŵr University
C asglwyd arian ar gyfer yr elusen Achub y Plant drwy gynnal diwrnod gwisgo Siwmpwr, Het neu Glustdylsau Nadolig cyn y gwyliau. Hefyd, cynhaliwyd Ras Hwyl Siôn Corn noddedig run diwrnod, a'r arian yn cael ei gasglu ar	M onies was raised for the charity Save the Children by holding a wear your Christmas Jumper, Hat or earrings day before the holidays. Also, a sponsored Santa Fun Run was arranged the same day, with money raised for the Hope House charity and

gyfer elusen **Tŷ Gobaith** ac Adran Addysg Gorfforol yr ysgol. Ffilmwyd cychwyn y ras ar gyfer y rhaglen deledu 'Heno'.

Casglwyd stamps wedi'u defnyddio ar ran **Cymdeithas y Deillion Gogledd Cymru** yn ystod Rhagfyr. Bydd yr ysgol yn parhau i'w casglu drwy gydol y flwyddyn.

the school's PE Department. The start of the race was filmed for the 'Heno' TV programme.

Used postage stamps were collected on behalf of **The North Wales Society for the Blind** during December. The school will continue to collect during the year.

LLWYDDIANNAU/ SUCCESSES

Llongyfarchiadau i dimau bechgyn a genethod yr ysgol a fu'n llwyddiannus mewn cystadleuaeth **Badminton 5x60** yn ddiweddar. Byddent nawr yn mynd ymlaen i'r Rownd Gogledd Cymru.

Llongyfarchiadau mawr i **Jack Quinney** am ddod yn ail ac i **Ollie Laddiman** am ddod yn drydydd yng **Nghystadleuaeth Syrffio Gogledd Cymru** ger Abersoch ym mis Tachwedd.

Llongyfarchiadau i **Rhys Last, Dom Kelly** a **Huw Evans** ar gael eu dewis i gynrychioli Gogledd Cymru yn y sgwad **Rygbi RGC**. Pob lwc i Rhys sydd wedi cael ei ddewis i chwarae yn erbyn Ysgolion Llanelli.

Llongyfarchiadau i rai o ddisgyblion yr ysgol a gymerodd ran yng Nghyngerdd y "**Schools Prom**" yn y Royal Albert Hall yn Llundain yn ddiweddar. Maent yn aelodau o **Fand Pres Ieuenctid Biwmares**.

Llongyfarchiadau i **Elis Ifor Roberts** (cyn ddisgybl) am dderbyn cydnabyddiaeth am ennill y nifer uchaf o bwyntiau am **Safon Uwch Electroneg CBAC** o blith carfan yr Haf 2014 ledled Cymru a Lloegr. Mae wedi mynychu seremoni gwobrwyo arbennig yng Nghaerdydd ganol Rhagfyr.

Cynhaliwyd nifer o weithgareddau ac ymarferion cerddorol ddiweddd tymor ar gyfer y **Gwasanaeth Nadolig** ar **17 Rhagfyr**.

Congratulations to the school's girls and boys teams that were successful in a **5x60 Badminton** competition recently. They will now attend the North Wales Finals.

Congratulations to **Jack Quinney** who finished 2nd and **Ollie Laddiman** who finished 3rd in the **North Wales Open Surf Competition** near Abersoch in November.

Congratulations to **Rhys Last, Dom Kelly** and **Huw Evans** who have been selected to represent North Wales in the **Rugby RGC** squad. All the best to Rhys who has been selected to play against Llanelli Schools.

Congratulations to some of the school's pupils on performing at the **Schools Proms** concert at the Royal Albert Hall, London recently. They are members of the **Beumaris Junior Brass Band**.

Congratulations to **Elis Ifor Roberts** (ex pupil) who has received recognition as having achieved the highest number of points for **WJEC A level Electronics** from the Summer 2014 cohort across England and Wales. He has attended a special ceremony in Cardiff mid December.

A number of musical activities and rehearsals was held end of term in preparation for the **Christmas Service** on **17 December**.

YMWELIADAU ADDYSGOL / EDUCATIONAL VISITS

Ymwelodd Myfyrwyr Blwyddyn 12 **Castell Biwmares** ac **Oriel Môn** fel rhan o ddiwrnod sgiliau ar 18 Dachwedd.

Ymwelodd Myfyrwyr Blwyddyn 13 **Galeri Caernarfon** a **Chanolfan Ddŵr Plas Menai** fel rhan o ddiwrnod sgiliau ar 18 Dachwedd.

Aeth grŵp o fyfyrwyr **Blwyddyn 13** sy'n astudio **Seicoleg** i ymweld â chynhadledd 'Pseudoscience' ym **Manceinion**.

Bu pedwar myfyriwr Blwyddyn 12 gymryd rhan mewn cynhadledd '**Dyfodol Plant yng Nghymru**' yng Nghaerdydd yn ddiweddar.

Mae rhai myfyrwyr Blwyddyn 12+13 sy'n astudio **Celf** wedi bod yn mynychu **Dosbarthiadau Bywluniad** yn Oriel Môn, Llangefni yn ddiweddar.

Aeth grŵp o fyfyrwyr **Blwyddyn 12+13** sy'n astudio'r Gyfraith i **Gynhadledd Gyfraith** ym Mhrifysgol Bangor yn ddiweddar.

Cymerodd grŵp o fyfyrwyr o Flynnydoedd 12 ran mewn '**Her Peirianeg**' ym Mhrifysgol Bangor.

Year 12 students visited **Beumaris Castle** and **Oriel Môn** as part of the Skills Day on 18 November.

Year 13 students visited **the Galeri in Caernarfon** and **Plas Menai Watersports Centre** as part of the Skills Day on 18 November.

A group of **Year 13 Psychology** students visited a Pseudoscience Conference in **Manchester**.

Four Year 12 students took part in a '**A Child's Future in Wales**' conference in Cardiff recently.

Some Year 12+13 students who study **Art** have been attending **Life Drawing Classes** at Oriel Môn, Llangefni recently.

A group of **Year 12+13** Law students attended a **Law Conference** at Bangor University recently.

A group of students from Years 12 participated in an '**Engineering Challenge**' at Bangor University.

A eth grŵp o ddisgyblion Blwyddyn 10 sy'n astudio Arlwyaeth, Tecstiliau a Thechnoleg ymweld â Windsor Cake Craft ac Ikea yn Warrington yn ddiweddar.	A group of Year 10 pupils studying Catering, Textiles and Technology visited Windsor Cake Craft and Ikea in Warrington recently.
Bu dau fyfyrwr Blwyddyn 13 fynychu cynhadledd 'NSPCC' ym Miwmares yn ddiweddar.	T wo Year 13 students attended an NSPCC conference in Beaumaris recently.
Cymerodd grŵp o ddisgyblion Blwyddyn 8 ran mewn gweithgaredd Sgiliau 'Bushcraft/'Adeiladau Tîm yng Nghoedd Llwyn Onn, Llanfairpwll.	A group of Year 8 pupils took part in a Bushcraft Skills/Team Building activity in Llwyn Onn Woods, Llanfairpwll.
Aeth grŵp o ddisgyblion Blwyddyn 10, 12 +13 sy'n astudio Celf ymweld â 'r 'Clothes Show Live' ym Mirmingham ym mis Rhagfyr.	A group of Year 10, 12 + 13 pupils studying Art visited the 'Clothes Show Live' in Birmingham in December.
Cymerodd grŵp o ddisgyblion ran mewn cyngerdd Age Concern yn Llangefni cyn y Nadolig. Hefyd, buont yn diddanu preswylwyr yng Nghartref Gofal Cerrig yr Afon , y Felinheli a Chartref Gofal Springholme yn Nhraeth Coch cyn y Nadolig.	A group of pupils took part in an Age Concern concert in Llangefni before Christmas. Also, they have been entertaining residents of Cerrig yr Afon Care Home in Felinheli and Springholme Care Home in Red Wharf Bay before Christmas.
Aeth grŵp o ddisgyblion Blwyddyn 12 +13 sy'n astudio Celf gymryd rhan mewn gweithdy gyda'r arlunydd Luned Rhys Parri yn y Galeri yng Nghaernarfon ym mis Rhagfyr.	A group of Year 12 + 13 pupils studying Art took part in a workshop with the artist Luned Rhys Parri at the Galeri in Caernarfon in December.
Bu grŵp bach o fyfyrwyr Blwyddyn 12 ddanfon cynnyrch a bwyd i Fanc Bwyd Ynys Môn cyn y Nadolig yng Nghaergybi i'w dosbarthu i deuluoedd anghenus .	S ome Year 12 students took food and produce to the Anglesey Food Bank before Christmas in Holyhead to be distributed to needy families.

CLWB CANT / ONE HUNDRED CLUB

Enillwyr Mis Tachwedd 2014/November 2014 Winners

Mrs Dianna Williams	26	£26.50
---------------------	----	--------

Enillwyr Mis Rhagfyr 2014/December 2014 Winners

Mr Stuart Smith	23	£26.50
-----------------	----	--------

Enillwyr Mis Ionawr 2015/January 2015 Winners

Mrs Debbie Pollard	18	£26.50
--------------------	----	--------

TREFNIADAU ARGYFWNG

CAU'R YSGOL

Byddy trefniadau'n ddibynnol ar natur yr argyfwng ond byddwn bob amser yn rhoi blaenoriaeth i sicrhau diogelwch y disgyblion a staff yr ysgol.

Dyma'r camau a fydd yn cael eu cymryd o fewn yr ysgol:-

1. Cesglir y disgyblion at eu gilydd mewn grwpiau blwyddyn mewn gwahanol ganolfannau yn yr ysgol.
2. Trefnir bod y cwmnïau bws yn dod i'r ysgol i'nôl y disgyblion.
3. Hysbysir y gorsafoedd radio canlynol bod angen cau'r ysgol:-
BBC Radio Cymru, Radio Wales a Capital FM.
4. Cynghorir rhieni hefyd i edrych ar wefan yr ysgol am unrhyw wybodaeth ynglŷn â chau'r ysgol - www.ysgoldavidhughes.org.
5. Cyhoeddir i'r disgyblion **nad ydynt i adael tir yr ysgol (cerdded adref na dal bws) oni bai bod ganddynt fynediad i'w cartrefi neu dŷ perthynas/ffrind agos** (yn unol â'r drefn deuluol).
6. Gelwir y disgyblion i'r bysiau, fesul bws.
7. Defnyddir bws mini'r ysgol i gludo rhai disgyblion gartref os bydd angen.

Anaml y bydd sefyllfaoedd o'r fath yn codi, ac rydym yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth parod pan fydd angen gwneud penderfyniad brys. Gallwn eich sicrhau ein bod bob amser yn rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch y disgyblion.

Hoffwn dynnu eich sylw yn arbennig at bwynt 5 uchod, sef, yr angen i ddisgyblion fod yn glir ynglŷn â'r trefniadau 'adref' mewn sefyllfa o argyfwng.

Gofynnir i chi sicrhau bod eich plentyn yn ymwybodol o'r trefniadau y dymunwch iddynt eu dilyn mewn argyfwng.

Pwysleisiwn eto na ddylai disgyblion adael tir yr ysgol os nad oes mynediad i'w cartrefi neu gartref perthynas/cyfaill, wedi ei drefnu gennych chi o flaen llaw. Byddwn yn sicrhau bod y disgyblion yn ddiogel yn yr ysgol hyd at yr amser y byddwch wedi gwneud trefniadau iddynt fynd adref.

Cofiwch gysylltu os oes gennych unrhyw gwestiwn ynglŷn â hyn.

ARRANGEMENTS IN AN EMERGENCY

CLOSING THE SCHOOL

The arrangements will depend on the nature of the emergency but the safety of the pupils and school staff will be our priority at all times.

These are the steps that will be taken within the school:

1. Pupils will be gathered together in year groups at different assembly points in the school.
2. We will arrange for the buses to come to the school to collect the pupils.
3. The following radio stations will be notified that the school is to close:-
BBC Radio Cymru, Radio Wales and Capital FM.
4. Parents are also advised to check the school website for any information regarding closing the school – www.ysgoldavidhughes.org.
5. The pupils will be informed that they are **not to leave the school (walking or on a bus) unless they have entry to their homes or a close relative/friend's home** (according to the family's arrangements).
6. The pupils will be called to the buses, one bus at a time.
7. The school minibus will be used to transport some pupils home if necessary.

This type of situation is very rare, and we appreciate your support when decisions have to be made quickly in an emergency. We can assure you that the pupils' safety is our priority at all times.

We would like to draw your attention to point 5 above in particular, which emphasises the need for pupils to be clear about the arrangements 'at home' in an emergency situation.

Please ensure that your child is fully aware of the procedures that you wish them to follow in such an emergency.

We emphasise once again that pupils should not leave the school site if they do not have entry to their homes or a relative/close friend's home, as arranged by you beforehand. Alternatively, we will ensure that the pupils are safe at the school until you have made arrangements for them to go home.

Please do not hesitate to contact us if you have any questions on this matter.